# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Mehefin 2017

Amser: 14.00 - 16.49

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4113

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC<br>Mike Hedges AC (yn lle Vikki Howells AC) |
| Tystion: | James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru<br>Tracey Mayes, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Alistair McQuaid<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Yn dilyn newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor ar 21 Mehefin, croesawodd y Cadeirydd Vikki Howells i'r Pwyllgor a diolchodd i Mike Hedges am ei waith. Fodd bynnag, roedd Mike Hedges yn dirprwyo ar ran Vikki Howells heddiw.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.
2.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w hysbysu am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor, gan ei bod yn bosibl y bydd y Pwyllgor plant yn dymuno gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn ystod y sesiynau a drefnwyd i graffu ar waith y Gweinidog.
2.3 Gofynnodd Mike Hedges AC i'r Cadeirydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch y sefyllfa o ran gweithgynhyrchu uwch mewn perthynas â chwmni Kancoat.

### 2.1 Consortia Addysg Rhanbarthol: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (16 Mehefin 2017)

### 2.2 Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (21 Mehefin 2017)

## 3 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Gwnaeth y Cadeirydd ddatganiad agoriadol ynghylch yr ohebiaeth ddiweddar rhwng Llywodraeth Cymru ac ef ei hun.

3.2 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda James Price, dirprwy ysgrifennydd parhaol Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru; a Tracey Mayes, pennaeth llywodraethu a chydymffurfio Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru, ar y cyllid cychwynnol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i brosiect Cylchffordd Cymru.

3.3 Cytunodd James Price i gymryd y camau a ganlyn:

- Ysgrifennu at y Pwyllgor gyda manylion ynghylch cyfanswm y gwariant a gafwyd hyd yn hyn a'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddyrannu;
- Anfon y canllawiau mewnol y mae swyddogion yn glynu wrthynt pan fyddant yn asesu ceisiadau grant;
- Darparu manylion pellach am y broses diwydrwydd dyladwy a ddilynwyd, yn dilyn penderfyniad y Cabinet ynghylch ariannu prosiect Cylchffordd Cymru; ac
- Ymchwilio i bwy yn Llywodraeth Cymru wnaeth y sylw am 'grandstanding' a gafodd ei gynnwys mewn datganiad i'r wasg, a darparu'r wybodaeth berthnasol i'r Cadeirydd.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prosiect Cylchffordd Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd, a gwnaethant gytuno y byddai adroddiad yn cael ei baratoi i'r Aelodau ei ystyried.

## 6 Cyfoeth Naturiol Cymru

6.1 Nododd yr Aelodau y wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a gwnaethant gytuno ar y llythyr drafft a gaiff ei anfon at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

## 7 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Yn sgil cyfyngiadau amser, ni chafodd yr eitem hon ei thrafod. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Aelodau anfon unrhyw sylwadau yn deillio o'u hystyriaeth gychwynnol o adroddiad y Pwyllgor i'r Clercod, a fydd yn aildrefnu'r eitem ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.